Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru | For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru | Care Inspectorate Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Chwarae Gellifor

Ysgol Gellifor
Gellifor
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1SG

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Chwarae Gellifor

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Gellifor |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Dd/b |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Ben Lindquist |
| Person â gofal | Katie Lewis |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 4 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 3 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:00-15:00, dydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod y tymor |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Yn gweithio tuag ato |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 20/01/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 15/03/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 30/06/2026 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Digonol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Fe wnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd y lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Cyflwynwyd rhybudd, ond nodwyd bod y rhain yn feysydd i'w gwella, a rhaid i'r Arolygydd Cofnodol fynd i'r afael â'r rhain.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad.

A2 Cryfhau prosesau hunanwerthuso fel bod arweinwyr yn gwerthuso effaith eu gwaith yn fwy effeithiol.

A3 Mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch diogelu a nodwyd adeg yr arolygiad.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu barn yn hyderus, mae ganddynt lais cryf ac maent yn gwneud dewisiadau ystyrlon trwy gydol eu chwarae a’u dysgu. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn symud yn rhydd rhwng ardaloedd o’r amgylchedd, gan ddewis yn annibynnol ble i chwarae, a gyda phwy, gan ddefnyddio adnoddau fel sisyrnau, darnau rhydd a deunyddiau adeiladu i gefnogi eu syniadau. Amser byrbryd, mae plant yn dewis beth hoffent ei gael i’w fwyta a’i yfed ac yn cyfrannu at gynllunio opsiynau byrbryd iach trwy awgrymu hoff ffrwythau. Maent yn elwa ar ymweliadau rheolaidd â siopau lleol, lle maent yn helpu prynu byrbrydau iach ac yn datblygu dealltwriaeth ynghylch o ble daw eu bwyd.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus, wedi setlo ac yn dangos ymdeimlad cryf o berthyn. Mae bron pob un ohonynt yn gwahanu oddi wrth eu rhieni a’u gofalwyr yn hyderus ac yn ymgysylltu’n gyflym â chwarae. Mae’r rhan fwyaf o blant yn ffurfio perthnasoedd cadarn ag ymarferwyr ac yn gofyn am sicrwydd, pan fydd angen. Er enghraifft, pan maent yn anhapus ar ôl mân achosion o gwympo yn yr awyr agored, mae plant yn troi at ymarferwyr yn hyderus am gysur cyn mynd yn ôl i chwarae. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos dealltwriaeth dda o arferion a disgwyliadau dyddiol; er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo cyn prydau bwyd ac yn eistedd ar y carped ar gyfer ‘amser gyda’i gilydd’ yn annibynnol. O ganlyniad, maent yn teimlo’n ddiogel ac wedi setlo o fewn y lleoliad.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dechrau rhyngweithio â’i gilydd yn dda ac yn datblygu medrau cymdeithasol cadarnhaol. Maent yn gwrando’n dda yn ystod gweithgareddau grŵp ac yn dechrau cydweithredu yn ystod chwarae, gan rannu adnoddau a chymryd eu tro yn effeithiol. Er enghraifft, mae plant yn cymryd eu tro mewn gemau pêl, yn trafod troeon yn llwyddiannus ac yn ymateb yn gadarnhaol i’w gilydd. Mae’r profiadau hyn yn helpu plant i ddatblygu perthnasoedd parchus a set gynyddol o fedrau cymdeithasol.

Mae bwrlwm amlwg ar draws y lleoliad, ac mae’r rhan fwyaf o blant yn ymgysylltu’n dda yn eu chwarae a’u dysgu. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn caneuon, rhigymau a gweithgareddau Cymraeg, gan ymuno â geiriau a gweithredoedd cyfarwydd. Mae llawer o blant yn ymgolli mewn chwarae creadigol, fel tynnu lluniau o’u teuluoedd, archwilio pypedau anifeiliaid fferm ac arbrofi â thywallt dŵr rhwng gwahanol gynwysyddion. Mae llawer ohonynt yn dangos dyfalbarhad wrth iddynt falansio a rholio peli ar hyd planciau pren, gan ymfalchïo yn eu cyflawniadau a dathlu eu llwyddiant.

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd da yn datblygu annibyniaeth. Mae llawer ohonynt yn rheoli arferion gofal personol yn hyderus, gan gynnwys mynd i’r toiled a golchi dwylo. Maent yn cymryd cyfrifoldeb am dasgau syml, fel paratoi byrddau byrbryd trwy osod matiau bwrdd, tacluso adnoddau, ac i blant hŷn, golchi potiau ar ôl bwyta. Mae llawer o

blant yn dechrau datblygu cydsymud da wrth iddynt dywallt diodydd, yn defnyddio cyllyll sy'n addas ar gyfer plant, ac yn trin a thrafod offer yn ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfleu eu hanghenion a'u hoffterau yn hyderus ac yn datblygu medrau iaith a medrau mathemategol cynnar yn bwrpasol trwy arferion bob dydd, profiadau a chwarae.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair a phedair oed a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn cael addysg a ariennir yn rhywle arall i adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Digonol

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles plant yn effeithiol. Maent yn annog ffyrdd iach o fyw trwy chwarae rheolaidd yn yr awyr agored, gweithgarwch corfforol ac arferion hylendid sefydledig. Mae ymarferwyr yn darparu byrbrydau a diodydd iach ac yn sicrhau bod plant yn profi diet amrywiol dros gyfnod. O ganlyniad, mae plant yn datblygu arferion iach ac yn elwa ar gyfleoedd i wneud dewisiadau iach.

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau priodol ar gyfer newid clytiau sy'n cynnal urddas plant ac yn hyrwyddo hylendid da. Fodd bynnag, nid ydynt yn cadw cofnodion ysgrifenedig o newid clytiau, sy'n cyfyngu ar eu gallu i gynnal cofnod cywir o ofal personol plant. Mae ymarferwyr yn cwblhau hyfforddiant diogelu angenrheidiol ac maent yn gyfarwydd â pholisi diogelu'r lleoliad. Maent yn gwybod sut i nodi ac uwchgyfeirio pryderon yn briodol, pan fydd angen. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod y gweithdrefnau i fonitro dilysrwydd ac adnewyddu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ddigon trylwyr. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig addas ac maent yn cofnodi a rhannu gwybodaeth am ddamweiniau a digwyddiadau yn briodol gyda rhieni. Mae gan arweinwyr drefniadau addas ar waith o ran diogelwch rhag tân, yn cynnwys asesiad risg tân manwl. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnal driliau gwacáu mewn tân yn addas o bryd i'w gilydd fel bod plant yn gwybod pa gamau i'w cymryd yn achos o argyfwng. Felly, nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn meithrin perthnasoedd cryf a gofalgar â phlant ac yn fodelau rôl effeithiol. Maent yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth yn effeithiol i gynorthwyo plant i ddatblygu ymddygiadau cadarnhaol a medrau cymdeithasol, sy'n cynnwys dysgu rhannu, cymryd eu tro a chydweithredu â phlant a phobl eraill. O ganlyniad, mae plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u cyfoedion ac yn datblygu hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant yn llwyddiannus trwy ryngweithio pwrpasol a gofal ymatebol. Maent yn ymateb yn sensitif i anghenion a diddordebau unigol plant. Maent yn ymuno â chwarae plant pan estynnir gwahoddiad iddynt, yn darparu cymorth pan fydd angen ac yn annog plant i ddyfalbarhau â heriau. Mae ymarferwyr yn annog plant i feddwl, archwilio a datrys problemau yn ystod chwarae. Er enghraifft, maent yn gofyn i blant ragweld beth allai ddigwydd wrth gymysgu diodydd lliw, yn ymchwilio i sut mae pympiau dŵr yn gweithio ac yn defnyddio offer yn yr awyr agored yn ddiogel ac yn annibynnol.

Mae ymarferwyr yn defnyddio offer cyfathrebu yn effeithiol i gefnogi medrau iaith a chyfathrebu plant. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol trwy arferion dyddiol, caneuon a gweithgareddau cyfrif. O ganlyniad, mae plant yn dechrau ymateb i gyfarchion a gorchmynion Cymraeg, ac yn defnyddio geiriau cyfarwydd wrth iddynt chwarae a rhyngweithio.

Mae ymarferwyr yn cefnogi anghenion unigol plant yn dda. Maent yn darparu gweithgareddau sy'n adlewyrchu diddordebau plant ac yn eu cymell i gymryd rhan mewn chwarae a dysgu. Mae ymarferwyr yn datblygu eu prosesau cynllunio i wneud defnydd gwell o arsylwadau wrth nodi camau nesaf a phrofiadau dysgu pellach plant. Maent yn gweithio'n agos gyda rhieni, yr awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol eraill i ddiwallu anghenion plant sydd angen cymorth ychwanegol gan sicrhau eu bod yn cael cymorth amserol ac yn elwa ar amgylchedd cynhwysol sy'n eu helpu i wneud cynnydd.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod werthfawr o brofiadau dysgu sy'n adlewyrchu anghenion a chamau datblygu plant. Maent yn darparu cydbwysedd addas o brofiadau wedi eu harwain gan oedolion a phrofiadau wedi eu harwain gan blant, ac yn addasu darpariaeth i adlewyrchu diddordebau a syniadau datblygol plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau'n dda i lywio cynllunio a chyfoethogi dysgu. Er enghraifft, maent yn ymateb i chwilfrydedd plant am anifeiliaid fferm yn dilyn trafodaethau yn gysylltiedig â phrofiadau plentyn ar ei fferm gartref. Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i ddarparu profiadau pwrpasol wedi eu seilio ar chwarae mewn cyd-destunau dilys. Mae'r profiadau hyn yn sicrhau bod plant yn cymryd rhan mewn profiadau dysgu ystyrlon ar draws y cwricwlwm.

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd dysgu ag adnoddau da sy'n cefnogi datblygiad medrau plant yn llwyddiannus. Maent yn ymgorffori cyfleoedd ystyrlon i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn bwrpasol ar draws meysydd y ddarpariaeth. Mae ymarferwyr yn creu ardaloedd darllen deniadol, yn darparu llyfrau ryseitiau o fewn profiadau chwarae rôl, ac yn sicrhau bod adnoddau creu marciau ar gael yn rhwydd ar

draws y lleoliad. Mae ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth fathemategol plant yn effeithiol trwy weithgareddau sy'n annog cyfrif, didoli, paru a chreu patrymau. Er enghraifft, maent yn annog plant i gyfrif gwrthrychau yn hyderus, yn defnyddio gohebiaeth un i un, yn cyfrif eitemau ac yn creu patrymau gan ddefnyddio eirth lliw. Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau digidol priodol fel teganau a reolir o bell a chamerâu i annog plant i archwilio technoleg a chofnodi eu cyflawniadau. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau creadigol plant yn dda. Maent yn darparu profiadau penagored sy'n annog plant i archwilio deunyddiau, mynegi eu syniadau a datblygu eu dychymyg trwy beintio, creu patrymau a chwarae dychmygus.

Mae ymarferwyr yn cefnogi cyfathrebu a datblygiad iaith plant yn briodol. Maent yn gwrando'n astud, yn annog sgyrsiau ac yn cynorthwyo plant i fynegi eu hunain yn glir ac yn hyderus yn ystod chwarae. Mae ymarferwyr yn adnabod plant yn dda. Maent yn gwneud defnydd da o wybodaeth sy'n cael ei rhannu gyda nhw gan rieni a gofalwyr pan fydd plentyn yn dechrau yn y lleoliad, ynghyd ag arsylwadau i'w helpu i gael darlun defnyddiol o fannau cychwyn plant. Mae ymarferwyr yn adeiladu ar y wybodaeth hon yn addas i'w helpu i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'i diwylliant yn gryfder. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol trwy gydol y dydd. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn ymateb yn hyderus ac yn defnyddio geirfa Gymraeg gyfarwydd yn ystod chwarae, ac yn ystod amser byrbryd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo traddodiadau Cymreig yn llwyddiannus trwy ddathliadau fel Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen, sy'n helpu plant i ddatblygu ymdeimlad cryf o hunaniaeth a pherthyn. Maent yn ehangu dealltwriaeth plant o'r byd ehangach trwy ddysgu am wyliau a dathliadau o ystod o ddiwylliannau, ac yn sicrhau bod adnoddau yn y lleoliad yn adlewyrchu amrywiaeth gyfoethog pobl Cymru.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol plant yn dda. Maent yn annog plant i ddangos parch, rhannu adnoddau a datrys mân anghytuno yn bwyllog ac yn feddylgar. Mae ymarferwyr yn meithrin annibyniaeth plant a'u hymdeimlad o gyfrifoldeb trwy eu hannog i dacluso adnoddau o'r neilltu yn ofalus ar ôl gweithgareddau. Maent yn cyfoethogi dysgu trwy ymweliadau gwerthfawr â'r gymuned leol, yn cynnwys fferm, siopau lleol a gardd gymunedol. Mae ymarferwyr yn darparu ystod addas o brofiadau sy'n helpu plant i feithrin synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod o'r byd naturiol. Er enghraifft, mae plant yn arsylwi creaduriaid bach yn yr ardal awyr agored ac yn dysgu sut i ofalu am anifeiliaid. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i archwilio'r amgylchedd naturiol ehangach a chymryd rhan mewn chwarae anturus a mentrus yn gyfyngedig.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn rhoi gweithdrefnau sefydledig ar waith sy'n helpu cynnal amgylchedd diogel a saff. Maent yn sicrhau bod y safle a'r ardaloedd chwarae yn yr awyr agored yn ddiogel, gyda drysau wedi eu cloi, giatiau a ffensys perimedr i atal mynediad anawdurdodedig. Mae arweinwyr yn cynnal gwiriadau diogelwch rheolaidd ac yn cwblhau asesiadau risg addas ar gyfer pob ardal chwarae, trip a gwibdaith. Mae ymarferwyr yn goruchwylio plant yn agos trwy gydol y sesiwn ac yn cynnal cymarebau oedolyn i blentyn gofynnol. Mae arweinwyr yn rhoi gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer plant ac ymwelwyr sy'n cyrraedd ac yn gadael y lleoliad. Mae'r trefniadau hyn yn helpu sicrhau bod plant yn aros yn ddiogel trwy gydol y dydd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn cefnogi chwarae a dysgu plant yn effeithiol. Maent yn monitro ac yn adolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd ac wedi gweithio'n bwrpasol dros amser i greu darpariaeth ddeniadol, ysgogol ac a gynhelir yn dda. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o gyfleoedd cyllido i wella ansawdd y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau difyr, yn cynnwys chwarae yn y dŵr, cegin fwd, gweithgareddau garddio ac adnoddau adeiladu sy'n cefnogi medrau archwilio, creadigrwydd a datrys problemau yn dda.

Mae ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd yn ystyriol i hyrwyddo annibyniaeth a dewis rhydd plant. Maent yn storio adnoddau mewn blychau wedi eu labelu a chynwysyddion agored, sy'n galluogi plant i ddefnyddio a dychwelyd eitemau yn annibynnol. Mae ymarferwyr yn darparu mannau agored mawr ar gyfer chwarae egnïol ar iard a chae'r ysgol ac ardaloedd llai ar gyfer creadigrwydd, ymlacio a gweithgareddau tawel. Maent yn darparu deunyddiau dodrefnu meddal cysurus, yn cynnwys rygiau meddal, gorchuddion ffabrig, blancedi a thai chwarae pren, sy'n cefnogi chwarae dychmygus a lles emosiynol plant. Yn ychwanegol, maent yn darparu ardaloedd cyfforddus lle gall plant iau gysgu neu orffwys yn unol â'u hanghenion unigol. Mae ymarferwyr yn defnyddio arddangosfeydd o waith plant, ffotograffau teuluol a datganiadau personoledig i helpu plant i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a datblygu ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael cyfle i fanteisio ar ystod gyfoethog o adnoddau ac offer o ansawdd uchel sy'n cefnogi eu datblygiad yn dda. Mae adnoddau yn lân, yn cael eu cynnal yn dda ac yn addas ar gyfer oedrannau a chyfnodau datblygu plant. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddeunyddiau dilys i gyfoethogi profiadau plant. Er enghraifft, maent yn darparu eitemau go iawn, yn cynnwys setiau te seramig a photiau a sosbenni metel i helpu plant i ddatblygu chwarae dychmygus a'u dealltwriaeth o brofiadau bob dydd. Mae ymarferwyr yn darparu cydbwysedd da o adnoddau penagored, yn cynnwys blociau pren, deunyddiau cardfwrdd, brigau a cherrig bach sy'n annog plant i archwilio, creu a datrys problemau yn annibynnol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau sy'n adlewyrchu amrywiaeth a chynhwysiant ar gael yn rhwydd, yn cynnwys doliau amlddiwylliannol, pypedau a ffotograffau sy'n cynrychioli amrywiaeth o ddiwylliannau, cefndiroedd ac anableddau. O ganlyniad, mae plant yn elwa ar amgylchedd cynhwysol sy'n helpu datblygu dealltwriaeth o'r byd amrywiol rydym yn byw ynddo.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae plant a theuluoedd yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Caiff ethos y lleoliad ei ddeall yn dda gan ymarferwyr, sy'n mwynhau eu rolau ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at fywyd y ddarpariaeth o ddydd i ddydd. Mae ymarferwyr yn elwa ar gymorth ac arweiniad defnyddiol gan bartneriaid allanol ac yn gweithredu'n gadarnhaol ar eu cyngor proffesiynol. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i ymarferwyr gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant ar gyfathrebu cynnar a chwarae sgematig plant. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth ymarferwyr o ddatblygiad plant a sut maent yn ymgorffori'r wybodaeth hon yn eu rhyngweithio a'u darpariaeth o fewn y lleoliad. Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau a chyllid yn briodol. Dros gyfnod, maent wedi defnyddio cyllid sydd ar gael yn bwrpasol i ymestyn yr amgylchedd dysgu trwy fuddsoddiadau fel offer ac adnoddau chwarae yn yr awyr agored i gefnogi chwarae corfforol. Mae'r gwelliannau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ymgysylltiad, annibyniaeth a datblygiad medrau plant.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau hunanwerthuso priodol sy'n manteisio'n addas ar safbwyntiau rhieni ac ymarferwyr, ac yn rhoi darlun cywir o lawer o gryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid ydynt yn adolygu effaith gwaith gwella yn ddigon trylwyr i ddatblygu dealltwriaeth ddigon clir o beth sy'n gweithio'n dda a ble mae angen mwy o welliannau. Mae arweinwyr yn cynnal arfarniadau blynyddol gydag ymarferwyr. Fodd bynnag, nid ydynt yn darparu goruchwyliaeth reolaidd nac yn defnyddio arfarniadau yn effeithiol i werthuso perfformiad ymarferwyr a nodi anghenion dysgu proffesiynol unigol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn elwa ar bartneriaethau cryf â rhieni, yr ysgol leol a'r gymuned ehangach, ac mae rhieni'n gwerthfawrogi'r gofal a'r addysg a gaiff eu plant. Maent yn gwerthfawrogi cyfathrebu rheolaidd trwy blatfformau ar-lein a thrafodaethau dyddiol anffurfiol, sy'n eu helpu i ddeall lles a chynnydd eu plant. Mae cysylltiadau cryf â'r ysgol leol yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ymgyfarwyddo ag arferion yr ysgol trwy ymweliadau a phrofiadau rheolaidd ar y cyd. Mae hyn yn eu helpu i bontio i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg yn llwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2026